Eitem Agenda 5 **12 Chwefror 2010** **WNC 01.10**

CYFEIRIAD STRATEGOL AR GYFER GRANTIAU COETIR

Pwrpas

1. Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cenedlaethol ynghylch argymhellion ar gyfer newid i brynu buddion i'r cyhoedd mewn coetiroedd nad ydynt yn eiddo i'r Comisiwn Coedwigaeth trwy symud canolbwynt cymorth grantiau yn strategol er mwyn:

   - creu mwy o goetir, targedu tir amaethyddol ac Ardaloedd Adfywio Strategol, er enghraifft Rhaglen Blaenau'r Cymoedd.
   - cynyddu arwynebedd y coetiroedd fferm sy'n dod i mewn i reolaeth;
   - buddion i'r cyhoedd a brynir mewn coetiroedd nad ydynt ar ffermydd.

Cwmpas

2. Mae'r papur hwn yn nodi'r defnydd o grantiau fel offeryn polisi yn y dyfodol. Mae offerynnau polisi eraill, er enghraifft Trethu, Gwrthbwyso Carbon Coedwigoedd yn Wirfoddol, cyfleoedd dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio 2006, a mentrau busnes megis Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru y tu allan i'r cwmpas. Yn y tymor hwy, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn bwriadu symud i ffwrdd o ddefnyddio cymorth grant fel y prif offeryn a datblygu swyddogaeth i'r mecanweithiau eraill hyn, er y bydd yn cymryd peth amser i'r rhain ddatblygu.

Cefndir a Newidiadau Polisi (gweler Atodiad 1)

3. Lansiwyd Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) yn 2006 ac mae'r rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13.

4. Mae'r newidiadau polisi a ganlyn wedi eu nodi fel prif yrwyr newid:

   - Adolygu Strategaeth Coetiroedd Cymru yn 2009;
   - Rhan coetiroedd wrth liniaru ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd;
   - Bydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu cymhellion ar gyfer creu a rheoli coetiroedd yn parhau i fod o dan bwysau gan gyllidebau'r UE a chartref.

Materion BWW

5. Mae'r materion a ganlyn wedi eu nodi fel dangosyddion na fydd BWW efallai'n gallu cyflawni canlyniadau polisi newydd i'r lefel fydd ei hangen yn y dyfodol:

   - Cymharol ychydig o goetiroedd a gafodd eu creu – a dim digon i ddiwallu dyheadau *Coetiroedd i Gymru*;
   - Mae'n ymddangos taw cyfyngedig fu effaith BWW wrth ddod â choetiroedd sydd heb eu rheoli o dan reolaeth;
   - Mae'r broses ymgeisio ar gyfer cynhyrchu cynllun rheoli 5-mlynedd sy'n cyd-redeg ag UKWAS ac yn bodloni rheolaethau'r UE wedi bod yn gymhleth a hir;

- Ychydig o geisiadau BWW sydd wedi defnyddio'r cynllun rheoli 5-mlynedd llawn ac ychydig o goetir newydd sy'n ennill ardystiad FSC/PEFC.

Dadansoddiad

6. Mae dadansoddiad o'n cwsmeriaid yn dangos fod angen cysylltu â phum prif grŵp er mwyn cyflawni *Coetiroedd i Gymru*:

   - Perchnogion coetir preifat cyfredol (heb fod yn ffermwyr);
   - Perchnogion coetir cyhoeddus cyfredol (ar wahân i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru);
   - Y sector buddsoddi (ar wahân i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru) a allai brynu tir er mwyn creu coetiroedd;
   - Y sector Amaethyddol (ffermwyr);
   - Tirfeddianwyr mewn Ardaloedd Adfywio Strategol.

7. Mae BWW wedi llwyddo wrth gefnogi cyflawniad rhai buddion i'r cyhoedd gyda'r ddau grŵp cyntaf.

8. Mae angen i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ddatblygu strategaeth newydd i gyflawni'r prif ganlyniadau, sef dod â rhagor o goetir o dan reolaeth a chynyddu arwynebedd y coetir sy'n cael ei greu.

Argymhellion

9. Cynigir yr amserlen a ganlyn:

   - Gwerthuso BWW yn gyfan gwbl erbyn Ebrill 2010.
   - Trafod gyda Llywodraeth y Cynulliad y posibilrwydd o gyfuno cefnogaeth ar gyfer coetiroedd â chynllun grantiau defnydd tir cyfannol newydd o 2014. Ceisio cytundeb erbyn Mehefin 2010.
   - Parhau i ddylanwadu ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnwys rhagor o goed a choetiroedd yng nghynllun Glastir.
   - Trwy gydol 2010, archwilio'r mecanweithiau a rhwydweithiau cefnogi cyfredol sydd ar gael i ffermwyr a darparu cefnogaeth a gwybodaeth ychwanegol.
   - Gwneud argymhelliad ffurfiol i Fwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym mis Hydref 2010 i wneud un o'r canlynol:
     I. Cau BWW ar 1 Ionawr 2014 ac, yn y cyfamser, datblygu grant defnydd tir cyfannol newydd a gyflawnir trwy ymagwedd gyfannol at ddefnyddio tir Llywodraeth y Cynulliad; neu
     II. Parhau i esblygu BWW a dadlau dros gynnydd yn y cymorth i reoli coetiroedd yng nghynllun Glastir Uwch.
   - Cynyddu'r defnydd o fesurau'r Rhaglen Datblygu Gwledig (Echelau 1, 3 a 4) yn y Rhaglen nesaf.

10. Datblygu cynllun grantiau defnydd tir cyfannol newydd i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2014, fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig newydd.

Goblygiadau Ariannol

11. Dylai'r cynigion hyn ganiatáu mwy o ddefnydd o offer cyflawni eraill, harneisio ffrydiau ariannu eraill a chynyddu'r gwariant ar goed a choetiroedd trwy ddefnyddio ffrydiau ariannu eraill, yn bennaf rhai sy'n cael eu hariannu trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

12. Yr effaith fwyaf ar Gomisiwn Coedwigaeth Cymru o bosibl fyddai colli'r gyllideb grantiau coetir o gyllideb Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ond nid yw hyn yn faterol bwysig.

13. Ni ddeellir yr effaith ar gyflogau yn llawn ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y gellid cyfuno gweinyddiaeth grantiau coetir â rheolaeth y cynllun grantiau presennol, gan arwain at ostyngiad mewn costau.

Risgiau

14.

Cydran Risg	Math o Risg: Enw Da Econ/Amg/Cymd	Sgôr Risg	Rheolaethau
Llywodraeth y Cynulliad yn anfodlon cyfannu grantiau coetir	Enw Da	**Canolig**	Dechrau trafodaethau cynnar gyda'r Adran Materion Gwledig i ddangos yr angen am gyfuno.
Cynnydd annigonol yn y gyllideb	Economaidd Enw Da	**Uchel**	Cynnwys cyllideb yn seiliedig ar dargedau a gytunwyd yn y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf. Lledaenu'r risg dros amrywiaeth o ymagweddau.
Ymateb anffafriol gan y sector i golli cynllun grantiau coetir pwrpasol	Economaidd Enw Da	**Uchel**	Strategaeth gyfathrebu ragweithiol. Cynnwys grantiau ar gyfer perchnogion coetir yn unig lle rydym am brynu buddion i'r cyhoedd.
Cynllun ddim yn ddeniadol i berchnogion coetiroedd	Economaidd Enw Da	**Canolig**	Darparu marchnata a grantiau atyniadol lle bo eu hangen er mwyn cael canlyniad.

15. Bydd cynnig I (paragraff 9) yn effeithio ar staff sy'n gysylltiedig â chyflawni BWW. Bydd nifer y staff a fydd yn teimlo effaith yn dibynnu ar lefel y cyfuno ag unrhyw gynllun grant newydd. Mae sgiliau llawer yn drosglwyddadwy, ac felly bydd gweithio gydag Adnoddau Dynol yn bwysig wrth reoli'r newidiadau hyn a'u risgiau cysylltiedig.

16. Bydd materion etifeddiaeth sylweddol mewn perthynas â BWW i'w rheoli os caiff y cynllun ei gau.

Cyfathrebu

17. Bydd yr argymhellion hyn yn destun cynllunio cyfathrebu manwl ar gyfer staff a budd-ddeiliaid, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o brofiad Comisiwn Coedwigaeth yr Alban ar ddatblygu cynlluniau grant.

Argymhellion

18. Gofynnir i'r Pwyllgor Cenedlaethol gymeradwyo'r cyfeiriad strategol ym mharagraff 2 a'r Argymhellion a nodir ym mharagraffau 9 a 10.

Richard Siddons
Pennaeth Grantiau a Rheoliadau
Chwefror 2010
Atodiad 1

Cefndir

- Lansiwyd Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) yn 2006. Fe'i lluniwyd yn arbennig ar gyfer coetiroedd yng Nghymru a chafodd ei ddatblygu wrth ymgynghori â pherchnogion coetir, rheolwyr a sefydliadau sector cyhoeddus. Mae BWW yn darparu mwy o gymorth effeithiol ar gyfer rheolaeth goetir gynaladwy o ansawdd da na chynlluniau blaenorol. O dan BWW, mae cymorth grant ar gyfer creu a rheoli coetiroedd yn seiliedig ar gynllun rheoli hirdymor cymeradwy, a rhaid iddo ateb gofynion Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y DG.
- Ymgorfforir BWW yng Nghynllun Datblygu Cymru Wledig 2007-13 ac mae'n gweithredu dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006.
- Roedd BWW yn newid sylweddol yn yr ymagwedd at brynu buddion i'r cyhoedd yng Nghymru. Oherwydd yr amser a gymerodd i'r sector a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ddod yn gyfarwydd â BWW, roedd y gwariant grantiau yn y flwyddyn gyntaf yn isel. Mae'r momentwm wedi cynyddu ac erbyn hyn mae'r galw ychydig yn fwy na'r gyllideb, gyda 700 o achosion yn cael eu datblygu dros arwynebedd o 27,600 ha, a 660 o achosion wedi eu cymeradwyo ar gyfer arwynebedd o 23,800 ha. Mae hyn yn cyfateb i tua 30% o'r holl goetir nad yw'n cael ei reoli gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.